




tud 3	tud 6	tud 11	tud 12
Pobl a Phethe	Trydan o'r ffwrnais	Llythyr o Wlad Groeg	Chwaraeon

PROTEST PARCIO



Nia Davies, Tiraddo – un o'r rhai sy'n gwrthwynebu'r cais

Mae nifer o'r trigolion sy'n byw ar y ffordd sy'n arwain i Graig y Penrhyn, Tre'r Ddol yn protestio yn erbyn bwriad y Gymdeithas Gwarchod Adar (RSPB) i osod maes parcio ar y llecyn gwyrdd sydd ar geg y ffordd a gerllaw'r hewl o Dre'r Ddol i Ynyslas. Mae'r Gymdeithas wedi cyflwyno cais cynllunio i adeiladu cuddfan adar ar dir maen nhw newydd brynu ar yr aber i gyfeiriad Craig y Penrhyn ac mae'r maes parcio yn rhan o'r un datblygiad. Byddai'r ymwelwyr â'r guddfan yn parcio ger y ffordd fawr ac wedyn yn cerdded tuag at yr aber i wyllo'r adar.

Yn ôl y protestwyr mae'r llecyn tir ym mherchnogaeth Cyngor Ceredigion ac felly mae cais cynllunio'r Gymdeithas i'r awdurdod sydd hefyd yn berchen y tir. Eto yn ôl y

Gwanwyn newydd i Gymru?

Wrth i'r dydd ymestyn a'r arwyddion cyntaf o wanwyn ymddangos yn y tir, dyma'r amser y byddwn ni'n edrych ymlaen at dywydd tecach a dyddiau brafach. Ac eleni, mae cyfle i bob un ohonon ni wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n dyfodol

Ar 3 Mawrth, bydd cyfle i fwrw pleidlais yn y refferendwm i sicrhau rhagor o bwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol, fydd yn golygu bod deddfau sy'n effeithio ar Gymru'n benodol yn cael eu gwneud yng Nghymru. Yn wahanol i sawl refferendwm yn y gorffennol, does fawr o anghytuno ymysg pleidiau gwleidyddol Cymru y tro hwn. Ddechrau'r flwyddyn ymunodd cynrychiolwyr o Blaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol, y Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol, ynghyd â'r Aelod Seneddol Mark Williams a'r Aelod Cynulliad Elin Jones ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth pobl Ceredigion am y refferendwm, ac i'w hargyhoeddi o bwysigrwydd sicrhau'r pwerau newydd.

Ers hynny mae bwrlwm o weithgaredd wedi bod yn digwydd drwy'r sir i gyd. Cynhelir stondinau stryd ym mhrif drefi Ceredigion bob bore Sadwrn, sy'n gyfle i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y refferendwm ac ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon allai fod ym meddyliau pobl.

i dudalen 6



protestwyr dyma'r pedwerydd tro i'r Gymdeithas gyflwyno cais am y guddfan a maes parcio dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn benodol mae'r cais am ddeuddeg lle parcio tuag at gefn y llecyn gyda'r tir wrth ymyl y ffordd fawr yn cael ei gadw'n laswellt. Mae mwyafrif preswylwyr Craig y Penrhyn yn erbyn y datblygiad ac wedi casglu dau betisiwn i gefnogi eu gwrthwynebiad gyda'r petisiwn diweddaraf â dros gant o enwau. Mae Cyngor Cymuned Llancynfelin hefyd yn gwrthwynebu'r datblygiad.

Ym marn y rhai sydd yn erbyn fe fydd adeiladu'r guddfan a'r maes parcio yn creu mwy o dramwy ar y ffordd gul i'r guddfan ac yn agor y posibiliadau i barcio dros nos. Ffactor arall yw

i dudalen 2

PAPUR PAWB

GOLYGYDD CYFFREDINOL: GERAINT EVANS (01970) 832473
GARNWEN, TAL-Y-BONT SY24 5EY POST@GARNWEN.ORG
TYNNU LLUNIAU: CYSYLLTER Â GOLYGYDDION Y MIS.

GOHEBYDDION LLEOL
BONT-GOCH: RICHARD HUWS, PANTGWYN, BONT-GOCH 832566
PARSEL HENLLYS: DILYS MORGAN, ALLTGOCH 832498
EGWYFACH: WENDY FULLER, PANDY, FFWRNAIS (01654) 781312
TALIESIN: SIAN SAUNDERS, IS-Y-COED, TALIESIN 832230
TAL-Y-BONT: AILEEN WILLIAMS, MAESMILLION 832438
KATHLEEN RICHARDS, Y BRYN 832201
TRE'R DDOL: SUSAN LEWIS, MAESGWYN, TRE'R DDOL 832429
JANET EVANS, CEFNGWEIRIOG (01654) 781260
MAES Y DERI: EIRILYS JONES, 91 MAES Y DERI 832483

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
CADEIRYDD: GERAINT PUGH, CYSGOD-Y-LLAN, TAL-Y-BONT 832433
IS-GADERYDD: ARTHUR DAFIS, MUR MAWR, TAL-Y-BONT 832093
YSGRIFYNYDD: SIAN PUGH, CYSGOD-Y-LLAN, TAL-Y-BONT 832433
TRYORYDD: GWYN JENKINS, MAESGWYN, TAL-Y-BONT 832560
AELODAETH: AILEEN WILLIAMS, MAESMILLION, TAL-Y-BONT 832438
HYSBYSEBION: WENDY FULLER, PANDY, FFWRNAIS (01654) 781312
PLYGU: GWENILLIAN PARRY-JONES, LYN HAMMONDS
DOSBARTHWR: ENID GRUFFUDD, SUSAN LEWIS, GWENILLIAN PARRY-JONES, BLEDDYN HUWS (TANYSGRIFIADAU)

CYHOEDDID GAN CYMDEITHAS PAPUR PAWB GDYA CHYMORTH
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU - BWRDD GORLLEWIN A BWRDD YR IAITH GYMRAEG

.... o dudalen 1

PROTEST PARCIO

bydd rhai sy'n ymweld â Marchnad Haf Tre'r Ddol yn defnyddio'r maes parcio newydd - ar hyn o bryd rhaid talu i barcio ar gae'r Farchnad ond bydd y lle cyn newydd yn cynnig parcio am ddim.

Ar ran y Gymdeithas Gwarchod Adar dywedodd Dick Squires, Rhelower Rhanbarthol, mae'r bwriad yw creu lle parcio diogel i ymwelwyr y guddfan. Nid yw'n bosib cael maes parcio ger y guddfan ei hun gan fod llyfogydd ar y tir o gwmpas ar adeg llanw uchel - bob rhyw bythefnos. Mae tirlun y guddfan eisoes wedi ei ddatblygu'n dir gwlyb ac yn gyrchfan i gannoedd o adar - cornicyllod, y gylfinir a chwilgorn y mynydd. Mae'r adar yno'n barod ond nid oes cyfleusterau i'w gwyllo a dyna pam mae'r Gymdeithas am adeiladu'r guddfan. Mae Dick Squires yn gweld y cyfan fel datblygiad deulol - y guddfan a'r maes parcio ac o'r farn bod y Gymdeithas yn paratoi adnodd gwerthfawr. Nifer cymharol fychan gyda gwir ddiddordeb fydd yn dod i'r lle ac yn manteisio ar y cyfle i wyllo cannoedd o adar mewn safle o harddwch neilltuol. Mae hefyd yn cyfeirio at y ffaieth y bydd y datblygiad o fudd arbennig i ysgolion lleol.

28 Chwefror - 'Darganfod Talybont'

Dewch â lluniau, toriadau papur newydd, llyfrau lloffion, hen fapiau, dyddiaduron neu bethau eraill sy'n disgrifio hanes a diwylliant yr ardal i'r Neuadd Goffa rhwng 5.00 a 8.30

Fflat mawr, braf

Fflat mawr, braf ar osod yn Nhalybont o 1af Chwefror; cynllun agored, 2 lawr, pob cyfleuster, wedi'i rwydweithio. £100 yr wythnos + £20 costau. Ffoniwch 07821 083 989 neu ebostiwch seithenyn@googlemail.com.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain - i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Dyddiadur

Chwefror

- Bethel 5 Gweinidog
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth Bugail (C)
- Cymdeithas Farddol Tal y
Bont 8 Llew Gwyn
- Sefydliad y Merched
Cerdoriaeth yn yr Ysgol
Valerie Jenkins 2 Neuadd
- Clwb Nos Wener
Hufen Ia Poeth 8 Llew
Gwyn
- Sadwrn Iaith
10.30 - 3.30 Neuadd
- Bethel 2 Parch Roger
Thomas
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 10 Huw Roderick
- Merched y Wawr
Cynnyrch naturiol ac
organig i'r Croen, Dr Ieuan
Nicholas 7.30 Neuadd
- Rehoboth Bore Coffi 10
Elw at Cochi dros Gymru
- Bethel 2 Gweinidog (C)
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
(Gŵyl Ddewi)
- Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr Neuadd
Darganfod Tal-y-bont
Neuadd 5.00-8.30

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech ddanfoni y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442), glenysedwards33@btinternet.com
o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Tendr Cynnal a Chadw

Mae'r Cyngor yn gwahodd tendrau gan unigolion sydd â phrofiad perthnasol i gyflenwi gwaith cynnal a chadw ym Mynwent Gyhoeddus Tal-y-bont, y Patshyn Glas, y Cae Bach a'r Maes Chwarae. Dylai'r sawl sydd â diddordeb yn y gwaith wneud cais am fanylion pellach drwy gysylltu â: Gwilym Huws, Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5EN; e-bost: gehpengwern@yahoo.co.uk; ffôn: 01970 832231.

Dyddiad cau derbyn tendrau fydd 4pm dydd Gwener 25 Chwefror 2011

Mawrth

- Cymdeithas Farddol Tal y
Bont 8 Llew Gwyn
- Bethel 10 Gweinidog
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 5 Parch Judith
Morris
- Cyfarfod Blynyddol y
Sioe 7 Neuadd Goffa
- Cyfarfod Chworiydd
Rehoboth Arvid a'i gamera
- Pwyllgor y Neuadd 8
Neuadd
- Bethel 5 Gweinidog
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 5 Bugail (C)

CYMDEITHAS SIOE TALYBONT

CYNHELIR Y CYFARFOD
BLYNYDDOL
8.00 NOS LUN
7 MAWRTH
YN Y NEUADD GOFFA

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimawrwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Golygwych y rhifyn hwn
gan Geraint, Geraint a
Sian gyda Iolo'n dylunio.
Golygyddion y rhifyn
nesaf yw Helen 832760
a Ceri - [stiwdio@ceri-
talybont.com](mailto:stiwdio@ceri-talybont.com) 832543. Y
dyddiad cau yw'r 4ydd o
Fawrth ac fe fydd y papur
ar werth ar yr 1leg o
Fawrth.

PYSGOTWR MEDRUS

Braf oedd gweld Harold Richards Mans y Tabernacl ar raglen Dai Jones yn son am ei yrfa hir yn pysgota'r afon Dyfi. Soniodd am y blynyddoedd cynnar gyda'r samwn yn cael eu danfon i Farchnad Billingsgate yn Llundain. Erbyn heddiw mae 'na' dipyn llai o bysgod ond mae Harold yn dal wrthi ac yntau yn 83 mlwydd oedd. Gwelwyd Harold yn rhwyfo ar draws yr afon gyda'r rhwydi yn disgyn yn daclus o'r cwch. Wedyn ei fab Geraint a'i wŷr yn llusgo'r rhwyd drwy'r dŵr gan obeithio am ddalfa. Yn anffodus dim ond rhyw un neu ddau bysgodyn ddaeth i'r lan ond falle a ellid disgwyl mwy gyda chriw teledu'n ffilmio'r cyfan!

Ar dir sych bu Dai yn holi Harold yng ngardd gefn y Mans a gymaint oedd llewyrch y blodau a'r planhigion fel y gallech fod yn sicr bod Harold yn gymaint meistr ar yr ardd ag yr oedd ar yr afon. Rhaglen ddifyr yn portreadu cymeriad go iawn a golygfeydd Dyffryn Dyfi yn gefndir gogoneddus i'r cyfan.

Mae'n hysbys nad yw Dai Jones ar ei esmwythia mewn cwch. Yn ystod y rhaglen holodd 'pa mor ddwfn yw hi fan hyn?' Atebodd Harold, 'o does dim gwaelod iddo fe.' Ni chafwyd gair o ymateb!!

DWY DDAMWAIN

Bu Kathleen Richards Y Bryn yn ddigon anffodus i ddiweddf dwy ddamwain yn ddiweddar. Syrthiodd ar riniog y tŷ a thorri ei garddwrn ac yna rhwygodd gewyn wrth gyflawni tasg syml yn y gegin. Mae'r arddwrn wedi ei drin ond rhaid aros i hwnnw wella cyn y gellir trin y gewyn. Dymuna Kathleen ddiolch am yr holl gyfarchion a dymuniadau da a dderbyniodd. Brysiwch i wella a gofal pia hi!

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Rena a Dennis Roberts a'r teulu yn 86 Maesyderi ar golli tad Mrs Roberts, Mr Ronald James, Aberystwyth.

Cydymdeimlwn hefyd â Bob Southgate, 93 Maesyderi a'r teulu ar golli nith, Penny Parsons yn 54 mlwydd oed ar ôl salwch blin. Roedd hi'n byw yn Sutton Coldfield ac fe gynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Sutton Coldfield ar yr 21 o Ionawr gyda'r gladdediagaeth yn Nhreacastell Powys ar y Sadwrn canlynol. Cydymdeimlwn â Carol Evans Tynrhelyg ar golli ei chwaer,

Pobl a Phethe



CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

Cafwyd amser pleserus iawn yng nghyfarfod y Chwiorydd yn festri capel Rehoboth, Tre-Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 1 Chwefror pan groesawodd Mrs Myfanwy Rowlands ein gŵr gwadd, sef Bob Williams, Penywern. Roedd Bob wedi bod yn brysur drwy'r bore yn paratoi ar ein cyfer, a'r byrddau wedi eu hulo'n hyfryd ar gyfer y wledd. Yn gyntaf cawsom arddangosfa o'r taclau amrywiol a defnyddiol a ddefnyddia Bob yn y gegin, ac yna mwynhaodd pawb y cawl blasus a baratowyd ganddo. I ddilyn, dangosodd sut i wneud 'banana flambé', a phawb wrth eu bodd yn ei fwyta wedyn gyda hufen a hufen ia. Daeth y pryd i ben gyda chaws a bisgedi (wedi eu gosod yn ddestlus ar blat), a choffi. Cytunodd pawb fod hwn wedi bod yn brynhawn ardderchog, a thalwyd diolch diffuant i Bob gan Mai Leeding.

Morfudd Willaims, Talacharn.

Hefyd cymdeimlad â Henry Lamb Glandwr ar golli ei Dad yn yr Iwerddon.

Merched a theulu Mrs Thomas, gynt o Benrhiw a fu farw'n ddiweddar. Bu Mrs Thomas yn byw yma am flynyddoedd ac aeth y merched Eleanor, Ann a Ray i Ysgol Talybont ac yna i Ardwyn

GIAMSTERS Y GEIRIAU

Mae John a Christine Evans Bryn Eleri wedi bod yn fuddugol yng nghroesair penwythnos y Western Mail sawl gwaith yn ddiweddar. Dau sy'n datrys pob clw a byth yn tynnu'n groes! Llongyfarchiadau.

GWELDY CYFAN

Bu Gwilym Jenkins Llety'r Bugail yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar yn cael triniaeth ar ei lygaid. Da deall bod Gwilym ar y mend a bod y golygon yn well nag erioed.

GWELLHAD

Braf gweld Mrs Marjorie Cookson, Tan y bryn, Eglwysfach adref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Bronglais yn dilyn cwmp yn ddiweddar

Gwellhad buan i Mrs Elsie Thomas Bryngolau sy ar hyn o bryd yn ysbyty Bronglais

Gobeithio fod Brian Jones Penlon wedi mendio ar ôl ei ddamwain anffodus

PEN-BLWYDD HAPUS

Pen-blwydd hapus iawn iawn a dymuniadau gorau i Mrs Leila Wellings, Oak Cottage, Tre Taliesin, a fydd yn 100 oed ar 15 Chwefror.

Pen-blwydd Priodas Aur Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Emrys ac Ann Humphreys, Llysteg, Tre Taliesin a fydd yn dathlu eu pen-blwydd priodas aur ar 18 Chwefror.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Hannah, Hyfrydle, ar enedigaeth ei merch Maisie ym mis Rhagfyr a hefyd i Wendy, ar enedigaeth ei hwyrres gyntaf.

Llongyfarchiadau i Emsyl James Llanerch ar ei dyweddiad â Rhodri Llwyd Caerdydd (Llanwuchllyn gynt). Dymuniadau gorau i'r ddau.

Llongyfarchiadau i Ffion a Ioan Beechey Lletyllwyd ar enedigaeth merch fach – Hedydd Mair

BLE MAE'R ACEN?

Mae dau arwydd newydd wedi eu codi ger mynedfa stâd 'Dol Pistyll' (sic.). Mae'r to bach yn eisiau ar y ddau. Dyna ddwy ddoli, felly!

Tybed ai'r Cyngor Sir ynteu'r datblygwyr sydd ar fai?

TELEDU

Bu Huw Evans a fu'n byw yn Nhal y Bont ac yn cynorthwyo yn yr Ysgol Sul ar y teledu'n ddiweddar. Yn ystod y rhaglen gwelwyd y gadair olwyn a brynwyd iddo yn sgil ymgyrch gan ysgol Sul Bethel

CYNGERDD CÔR CF1

Cafwyd gwledd o gyngerdd gan Gôr CF1 Caerdydd, yn y Tabernacl, Machynlleth. Nos Sadwrn, 29 Ionawr. Roedd gan ddau o aelodau'r côr gysylltiadau ag ardal Papur Pawb. Braf oedd mwynhau perfformiadau'r baswr Robin Fuller, Ffwrnais a'r soprano Lynwen Roberts, merch Anwen Howard, Tal-y-bont. Bu raid i'r côr ganu sawl eitem yn ychwanegol ar ddiwedd y cyngerdd i fodloni'r gynulleidfa a oedd yn gyndyn iddynt adael y llwyfan. Diolch i chi Lynwen a Robin.

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068

M: 077626 20309

Gwneir pob math o waith

Cinio Blynyddol Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont




Aelodau a swyddogion Clwb Ffermwyr Ifanc Talybont ynghyd a'u llywyddion Dafydd ac Elliw Jenkins, Tanrallt a'r gŵr gwadd Brian Walters yn y cinio blynyddol yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth gyda'r cwpannau a enillwyd yn ystod y flwyddyn.



Plant Ysgol Sul Bethel yn cyflwyno sic o £80 i Anne Edwards Swyddog Codi Arian Cymunedol Ambiwylans Awyr Cymru. Roedd y pres yn ganlyniad i'r casgliad yng ngwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul.

Cofnodi camp



Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

MERCHED Y WAWR

Cawsom noson ddifyr a diddorol iawn nos Lun 17eg o Ionawr yng nghwmni Menna Morgan, Dolpistyll, Talybont. "Ymfudo i Ohio" oedd testun ei sgwrs, cafodd yr aelodau glywed am amgylchiadau bywyd erchrydus yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd yn gwrthio degau o filoedd o Gymry i adael eu gwlad a chychwyn ar ffordaith hir a pheryglus i'r Amerig yn y gobaith i chwilio byd gwell yno. Daeth yr hanes yn fyw drwy i Menna ddarlunio ei stori gydag engreifftiau o deuluoedd lleol. Gall Haneswyr Teulu chwilio'r wefan :- ohio.llgc.org.uk am hanes eu perthnasau.

Diolchwyd i Menna gan Falyri Jenkins a gofawyr y tē oedd Ann Jenkins a Tegwen Jones.

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Gwasanaeth Scania
ARTHUR MORGAN



Pencfen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu
gwasanaeth fframio dychmygus
o'r safon uchaf.

Cewch ddewis o amrediad eang o
siapiau gosod a fframiau.

Bydd y fframdy'n gallu darparu ar
gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bampffed
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

O'r Cynulliad

Wrth edrych drwy'r calendr newydd, mae hi'n amlwg y bydd 2011 yn flwyddyn fawr i Geredigion a Chymru. Mae yna gyfnod cyffrous o'n blaenau, er fe fydd yna her i'w goresgyn hefyd.

Fe fyddwch mae'n siwr yn ymwybodol o'r refferendwm dros bwerau deddfu llawnach i'r Cynulliad a gynhelir ar 03 Mawrth. Fe fyddai cael pleidlais Ie yn y refferendwm yn gam a fyddai'n sicrhau bod system gyflymach o wneud penderfyniadau er lles pobl Cymru.

Ar ddechrau mis Ionawr, cefais y fraint o siarad yn lansiad lleol yr ymgyrch *Ie Dros Gymru*. Braff oedd gweld cynifer yno - roedd Canolfan y Morlan yn Aberystwyth yn llawn i'r ymylon - ac roedd hynny'n galonogol iawn i'w weld. Cafwyd trafodaeth ddifyr ac roedd brwdfrydedd ymysg y gynulleidfa i'w weld ac i glywed mwy am bwysigrwydd y refferendwm yn amlwg. Os ydych am helpu gyda'r ymgyrch, gallwch ddanfôn e-bost at ceredigion@iedrosgymru.com.

Hefyd yn ystod mis Ionawr, fe ddaeth y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC, i Aberteifi i gael gweld y gwaith peirianyddol sy'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn ail-agor Cyffordd Tesco yn y dref. Mae'r gyffordd wedi bod ar gau ers 2003 erbyn hyn, ac wedi blynyddoedd o ymgyrchu, rwy'n edrych ymlaen at weld ceir o bob cyfeiriad yn medru defnyddio'r gyffordd.

Tra fy mod yn Aberteifi, fe ymwelais â'r Guildhall lle mae'r gardigan enfawr a wëwyd i nodi 900 mlwyddiant y dref. Mae'n amlwg y treuliyd oriau yn gweithio ar y gardigan ac mae'n gofnod teilwng o hanes y dref.

Yn olaf, fe fynychais ginio i ddathlu diwedd apêl Sioe'r Cardis. Hoffwn gymryd y cyfle i longyfarch pob un fu'n helpu trefnu digwyddiadau a chodi arian yn ystod y flwyddyn, mae'r holl waith caib a rhaw wedi talu ar ei ganfed.

Elin Jones AC



... mewn gwerslyfr newydd

Yn Hydref 2003 aeth Rhydian Evans fferm Tynant Cwm Ceulan i weithio fel cneifiwr am chwe mis yn Seland Newydd. Nawr mae hanes a phrofiad Rhydian wedi ei osod mewn gwerslyfr ar y wlad sydd newydd gael ei gyhoeddi gan Ganolfan Adnoddau Addysg Prifysgol Aberystwyth. Teithiodd Rhydian i Invercargill Ynys y De i ymuno â chneifwyr arall a symud o un fferm i'r llall. Roedd hi'n ganol haf ac mor gynnes â diwrnod poeth yng Nghymru ac felly roedd y cneifio yn waith chwyslyd. Byddai'n cychwyn am chwech y bore, toriad am de ac adeg cinio a mlan wedyn tan ddiwedd y prynhawn. At hyn roedd y defaid dipyn trymach gyda'r cnu yn ymestyn i'r coesau a'r wyneb - y cyfan yn gofyn am amynedd a gofal. Roedd y cnu'n gyrlig a hollol wyn ag eto roedd rhaid cymryd gofal i'w gadw'n lan gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i wneud dillad drud o ddefnydd gwlan merino. Cneifiodd Rhydian dros 9000 o ddefaid yn ystod y chwe mis ac ers iddo ddychwelyd mae wedi cystadlu yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd a dod yn ail yn y dosbarth iau.

Gallu arbennig gyda'r gwellau felly a da gweld camp Rhydian wedi ei gofnodi yn y gyfrol.

BYW YN YR ARDD

Bydd y gyfres *Byw yn yr Ardd* yn dychwelyd ar S4/C yn gyntaf yn y Gwanwyn ac rydym yn chwilio yng Nghymru a thu bent arno:

- Awdingr brod a chymariadau o bob oed sy'n hoffi potsian a merino yn yr ardd.
- Straeon neu bensiectau garddwrtaethol ac oes-gyfeillgar.
- Eiddi bach, mawr neu amartol.
- Babi sy'n bared i sarnu eu tips garddla.
- Uchrywun mewn gartionedd sy'n hoffi byw yn yr ardd!

Gallwch gael llyfr *Byw yn yr Ardd*
ar 01248 67067 neu trwy'r
e-bost post@bywynyrrydd.net

S4/C

Y FFWRNAIS I DANIO ETO



Phil Hammond yr Arolygydd gyda gweithwyr eraill Adroit ar safle Ffwrnais Dyfi

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar addasu'r rhod ddŵr yn Ffwrnais i gynhyrchu trydan i'r grid cenedlaethol. Cwmni Adroit o Bromsgrove swydd Caerwrangon sy'n gwneud y gwaith a'r brif dasg yw lledu'r biben o ben uchaf y rhaeadrau lawr i'r rhod er mwyn creu llif digonol. Mae'r cwmni yn gweithio i gytundeb gyda Dŵr Cymru a Cadw Henebion Cymru ac mae'r datblygiad yn gorfod sicrhau na niweidir adeiladau hanesyddol y Ffwrnais mewn unrhyw ffordd nac amharu ar lif y dŵr tra'n creu digon o lif i gynhyrchu trydan yn economaidd

Adeiladwyd y ffwrnais gan deulu'r Kendalls oddeutu 1755 i gynhyrchu haearn. Roedd y Kendalls yn dod o ganolbarth Lloegr ac yn feistri haearn amlwg mewn ardaloedd eraill. Ni fu'r ffwrnais yn cynhyrchu ond am ryw hanner canrif ac roedd yn segur erbyn 1810. Addaswyd hi yn felin lifio yn ddiweddarach ac i'r cyfnod hwn y perthyn yr olwyn ddŵr bresennol Cychwynnwyd ar adnewyddu'r safle gan Cadw yn 1977, cwblhawyd y dasg ym Mehefin 2008 ac agorwyd y lle unwaith eto i'r cyhoedd.

Mae pedwar o weithwyr Adroit ar y safle ar hyn o bryd a'r disgwyl yw y cwblhau'r gwaith mewn rhyw naw wythnos. Fel y soniwyd ei prif dasg yw gosod piben newydd o dan y llwybr sy'n arwain i'r olwyn. Bydd rhywfaint o waith yn cael ei wneud ar yr olwyn hefyd ac yna gosodir twrbein yn y stafell gerllaw. Bydd y dŵr yn troi'r olwyn a'r olwyn yn troi'r twrbein a thrwy hyn fe gynhyrchir trydan mewn modd glan adnewyddol. Ar derfyn y gwaith bydd y safle yn weledol yn union fel y mae nawr.

Mae Ffwrnais Dyfi yn enghraifft brin o chwyldro diwydiannol y ddeunawfed ganrif yn ymestyn o ranbarthau trefol Cymru i ogledd Ceredigion. Mae'r datblygiad diweddaraf yn dangos fod gan y Ffwrnais gyfraniad i chwyldro'r unfed ganrif ar hugain i greu trydan adnewyddol.

... o dudalen 1

Gwanwyn newydd i Gymru?

Un problem sy'n wynebu'r ymgyrch dros bleidlais gadarnhaol yw nad yw pobl yn meddwl bod llawer o ots mewn gwirionedd sut mae pobl yn pleidleisio – wedi'r cyfan, pe bai Cymru'n pleidleisio 'na', fyddai dim byd yn newid. Ar bapur, mae hynny'n wir, ond yn ymarferol, gallai hyd yn oed arwain yn y pen draw at wrthdroi datganoli, gydag ymyrraeth o du Llundain yn cynyddu, a gallu'r Cynulliad i sefyll a chodi llais dros Gymru yn dechrau datod.

Yr unig beth fedrwn ni ei wneud felly i ddiogelu ein cymunedau a'n gwlad yw sicrhau pleidlais gref dros drosglwyddo'r pwerau i'r Cynulliad. Fel y dywed arweinydd yr ymgyrch dros bleidlais Ie, Roger Lewis, dyw'r status quo ddim yn ddewis – ymlaen neu'n ôl, dyna'r unig ddewis sydd i ni. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan yr ymgyrch Ie: <http://www.iedrosgymru.com/safle/>, neu gysylltu â'r ymgyrch yng Ngheredigion ar ieceredigion@gmail.com.

SEFYDLIAD Y MERCHED EGLWYSFACH

Cafodd yr aelodau noson diddorol ar y 10fed o Ionawr. Y siaradwraig oedd Barbara Watkins a'i thestun oedd y "Y Porth o Derwenlas". Soniodd am y pentref yn 1700au pan oedd y busnes adeiladu llongau yn llwyddiannus iawn. Ar yr un adeg roedd 7 llong yn cael eu hadeiladu yno. Dangosodd Barbara sleidiau proffesiynol iawn yn cynnwys hen luniau a mapiau o'r ardal. Mae hi wedi gwneud llawer o ymchwil ers iddi hi ymddeol ac mae hi'n bwriadu ysgrifennu llyfr am y pwnc. Mi fydd y cwrdd nesaf ar 7ed o Chwefror pan fydd PC Hefin Jones yn siarad am "Crime prevention in the home".

STORFA CANOLBARTH CYMRU

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll
Machynlleth
SY20 8BQ

Tel 01654 703592

CYNGOR CYMUNED LLANGYNFELYN

Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2010.

Adroddwyd ein bod yn siomedig i glywed gan Asiantaeth Ffyrdd Canolbarth Cymru nad oedd ein cymuned yn gymwys i dderbyn unrhyw arian ar gyfer gwaith ar y ffordd yn ystod 2010/2011. Efallai y byddwn yn gymwys yn 2011/2012 ond teimlwyd fod hynny yn amser hir i aros i'r arwyddion cyflymder newydd gael eu gosod gan fod y drafndiaeth ar hyd y ffordd yn cynyddu yn ddyddiol.

Yn dilyn llawer o gwynion gan y gymuned, trafodwyd y diffyg graeanu a fu ar y ffyrdd yn ystod y tywydd gwael. Er inni geisio'n galed i gael mwy o finiau halen gan Gyngor Ceredigion, nid oeddem yn gymwys.

Rydym yn dal mewn cyswllt ag uned drafndiaeth Ceredigion i geisio cael cyswllt bws yn ystod y dydd i'r Borth ac yn ôl fel bod pobl yn y gymuned yn medru mynd a dod o'r feddygfa a'r siopau yno.

Cafwyd adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â'r twrbeini gwynt sy'n cael eu hystyried ar gyfer yr ardal.

Adroddwyd bod ein cyfrifon ariannol am 2009/2010 wedi eu harchwilio a'u cadarnhau.

Yr unig bwnc a gyflwynwyd ynglŷn â chynllunio oedd y ffaith fod y Gymdeithas Gwarchod Adar wedi tynnu'n ôl eu cais am guddfan adar yng Nghraig y Penrhyn.

Datganwyd ein llawenydd fod y goeden Nadolig wedi ei goleuo yn y gymuned a dymunwyd Nadolig llawen i bawb.

Gofal Traed Aber

Mae'n siŵr bod nifer ohonom wedi sylwi ar y ffenestr gyda'r llun o droed wrth gerdded lawr y Porth Bach yn Aberystwyth. Ond tybed sawl un sy'n gwybod mai un o berchnogion 'Gofal Traed Aber' yw Shân Jones, Tŷ'r Banc, Bontgoch? (llun ar dudalen 1).

Ers mis Hydref 2010, mae Shân wedi ymuno â'r feddygfa traed fel cydberchennog, ac fe aeth *Papur Pawb* i gwrdd â hi yn ddiweddar i ddsygu mwy amdani hi a'r busnes.

Mae'r feddygfa ei hun yn bodoli ers rhyw 40 mlynedd – roedd ar Goedlan y Llwyfen yn wreiddiol – ond fe symudodd i'r Porth Bach rhyw saith mlynedd yn ôl. Fel meddyg traed ym meddygfa 'Gofal Traed Aber', mae Shân yn cynnig ystod eang o driniaethau, gan gynnwys trin croen caled, llawdriniaethau o dan anaesthetig ar gyfer casewinedd, a chreu mewnwadnau arbennig ar gyfer pobl sydd wedi cael damwain wrth wneud chwaraeon er mwyn cywiro unrhyw broblemau bio-mecanyddol sydd ganddynt. Er, dywed nad yw'n gwneud unrhyw 'foot pamering' yno fel yr oedd wedi tybio y byddai'n gwneud pan gytunodd i ymuno â'r busnes.

Mae hyn yn newid byd i Shân oedd gynt yn gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd yn Ysbyty Bronglais a Chlinig Ffordd y Gogledd yn y dref, lle'r oedd hi'n feddyg traed yn arbenigo mewn trin cleifion â chlefyd siwgr. Dywed bod y cleifion hynny'n gallu colli'r teimlad yn eu traed a bod hyn yn arwain at broblemau gan fod teimlo poen yn arwydd bod rhywbeth o'i le.

Mae Shân yn awyddus i ddatblygu ei gwaith yn y feddygfa breifat i drin cleifion â chlefyd siwgr ac mae rhai o'i chyn- gleifion o dan y Gwasanaeth Iechyd eisoes wedi symud ati i gael triniaeth yn breifat.

Ganwyd Shân yng Nghaerfyrddin ond fe symudodd i Landre gyda'i theulu pan roedd hi'n bedair blwydd oed. Yna, ar ôl ennill graddau o brifysgolion Caerdydd a Bradford, fe ddychwelodd i'r ardal er mwyn priodi dyn lleol ac ymgartrefu ym Montgoch.

Cyn gadael, roedd Shân yn awyddus i gynnig rhai awgrymiadau ar gyfer darllenwyr *Papur Pawb* ar sut i edrych ar

ôl eu traed. Dywedodd mai'r cyngor pwysicaf yw osgoi torri ewinedd y traed yn rhy fyr ar yr ochrau fel mae nifer yn tueddu i wneud. Dylid eu torri fel ewinedd y dwylo gydag ychydig o gylch ar y pen ac yna defnyddio ffeil i gael gwared ar unrhyw ddarnau bach siarp ar yr ochrau yn hytrach na thorri am i lawr gyda siswrn.

Awgrymodd hefyd y dylid golchi'r traed yn ddyddiol (ond peidio eu socian yn ormodol – dylai pum munud fod yn ddigon) ac yna eu sychu'n dda. Wrth gwrs, mae'n bwysig cofio y dylid mynd i weld arbenigwr ar unwaith os oes unrhyw broblem yn codi gyda'r traed.



a million
voices for
nature

miliwn o
leisiau dros
fyd natur

Estyn Llaw

**Datblygu Dwyieithrwydd
yn y 3ydd Sector**

Developing Bilingualism
in the 3rd Sector

www.estynllaw.org

Arweinydd Taith iaith Gymraeg

Ym mhle: Ynys-hir, Ceredigion
Pryd: Chwef-Ebrill 2011
Ymrwymiad: 1 prynhawn yr wythnos
Cyfnod: 3 mis

Beth gweh chi Dyma gyfle gwyh i gyfarfod pobl leol a mwynhau taith hyfryd o amgylch Ynys-hir. Byddwch o hyn: yn cynorthwyo gyda hyswddo't iaith Gymraeg wrth ennill y medrau angenrheidiol i arwain teithiau tywys yn ddiogel.

Pam ein bod Mae RSPB Ynys-hir yn cynnwys 1000 hectar o gefn gwlad hyfryd gyda golygfeydd gwych dros eich angen: aber Dyfi. Hoffem annog y gwmuned leol i ddod i fwynhau'r llecyn haedd hwn yng nghanol Blosffwr Dyfi. Gofynnwn i chi gynoethwyo gydag arwain taith wythnosol i ddysgwyl y Gymraeg i ymddet eu Cymraeg llafar wrth fwynhau taith braf gyda chefnid trawadol i ddarparu pinciau difyr i'w traed. Byddwch yn annog trafodaeth, yn ateb owestiynau ac yn ddisgu geirfa newydd i helpu dysgwyl ddd yn fwy hyderus wrth siarad y Gymraeg.

Anghenion: Mae anrannu angen siaradwr Cymraeg i'w helpu i hyswddo't iaith Gymraeg ac annog dysgwyl. Byddwch yn bethen at fedrau cyfarfod da a byddwch yn gweillgwr ac yn hawdd siarad â chi. Byddwch yn gweithio yn yr awyrgored, beth bynnag fo't tywydd, felly bydd angen i chi fod yn eithaf ffit gda't gallu i gerdded am dros awr at dirwedd awr.

Hoddiadau: Darperir hyfforddiant priodol ac ad-dellit treuliau lle bod hynny'n angenrheidiol. Mae'r RSPB yn gweithredu at ran adar a bywyd gwyllt ac yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n bygwth ein hamgylchedd. Rydym yn dibynnu ar aelodaeth a chyfraniadau i arlannu ein gwaith. Drwy wirfoddoli eich amser a'ch medrau, gallwch wneud gwt wahaniaeth i waith yr RSPB. Mae byd natur yn anhygeol – dewch i'n helpu i'w gadw felly.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Bryony Swinden, Ynys-hir. Ffôn: 01654 700222 e-bost: Bryony.Swinden@rspb.org.uk



**Gyda chymorth
Cronfa Dreftadaeth y Loteri**
Supported by the Heritage Lottery Fund

Gyrfa Chwist y Sioe

Ar nos Fercher, 15^{fed} o Ragfyr, cynhaliwyd ein gyrfa chwist flynyddol. Bu'n chwist eithaf llwyddiannus gydag ugain o fyrdau, ac yn cadw trefn ar y cyfan oedd Glyn Davies yr MC.

Daeth y cyfle am banded wedi ei baratoi gan y gwagedd hanner amser, a braf oedd cael sgwrs a phrynu tocyn raffl fach gan Marion ac Ann. Ail ddechreuwyd ar y chwarae a buddugwyr y noson oedd: **Sgôr uchaf (Gŵydd):** Sioned Huxtable (176)

Twrci: Margaret Jenkins, Peter Howes

Cyw iâr: Mair Owen, Geraint Jones

Cyw iâr: E Edwards, Bryniog Lloyd

Potel o sieri: Tommi Williams, Gwilym Lloyd

Pwdin Nadolig: Audrey Evans, E Edwards, Dai Jones, J Middleton

Bwrw Allan (Hwyaden): Rebecca Lloyd, Dilwyn Evans

'Miniature' Isaf: Ann Jones, Gareth Owen

Dyn / Dynes yn eistedd hiraf: Llŷr James, Dylan Jones

Plentyn 16 oed ac iau: Eleri Jones, Richard John Jenkins

Ein llywydd dynnodd gwobrau'r ddwy raffl. Y prif enillwyr oedd:

£60: Gwilym ac Eleri Huws, Pengwern

£40: Gwilym ac Eleri Huws

£30: Gareth Evans, Sŵn y Ffrwd

£20: Anne May James, Penybanc

£20: Gwilym ac Eleri Huws

£10: Dilwyn Evans, Tynant

£10: Williams Tŷ-Du, Borth

£10: Lloyd Waenbant, Lledrod

£5: Philip Jones, Rhydygarreg, Borth

£5: Anna, Cynnullmawr

Enillwyd llawer o wobrau'r raffl fach gan bobl lleol.

Cyn troi am adref, diolchodd y cadeirydd i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth i'r noson.

Janet Jones

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON



GERAINT JAMES

Ffôn: 01970 612459 Mob: 07967235687

**Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL**

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Croesawodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Gerwyn Jones, yr aelodau i gyfarfod llawn cyntaf y Cyngor yn 2011 ar nos Lun 31 Ionawr

Derbyniwyd llythyr parthed System Unffordd y Patshyn Glas yn egluro nad oedd y Llawlyfr ar Arwyddion Traffig yn caniatáu codi arwyddion coch a gwyn ('Dim Mynediad') wrth geg y ffordd fawr o flaen y Llew Gwyn. Roedd llythyr pellach yn gofyn am sêl bendith y Cyngor i osod marciau cliriach ar wyneb y ffordd o flaen y ddau Lew i ddangos mai System Unffordd sydd o amgylch y Patshyn Glas. Cytunwyd i dderbyn yr awgrym hwn.

Adroddodd y Clerc fod neges wedi dod i law yn datgan bod y Cyngor Sir, yn dilyn y problemau diweddar, yn barod i wrando ar awgrymiadau o fannau ychwanegol o fewn y gymuned lle dylid gosod biniau graeanu. Enwyd pump o leoliadau posib o fewn yr ardal gan yr aelodau a chytunwyd i anfon yr awgrymiadau hyn ymlaen i'r Cyngor Sir.

Adroddwyd yng nghyfarfod Tachwedd fod y gwaith o osod wyneb newydd ar y ffordd a'r llwybr yn Nôl Pistyll wedi'i gwblhau, ond nid felly'r gwaith o glirio'r sbwriel adeiladu. Cytunwyd i anfon llythyr a lluniau at y Gwasanaethau Amgylcheddol i dynnu eu sylw at y broblem.

Deallir bod trigolion Maes-y-deri wedi derbyn llythyr oddi wrth Tai Ceredigion y codir rhwystr pwrpasol i atal cerbydau rhag gyrru i mewn i'r stad o gyfeiriad y Cae Bach.

Adroddodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ateb mor belled i'r gŵyn bod dŵr yn llifo ar hyd y llwybr troed rhwng Glanceulan a Maes-y-llan. Yn y cyfamser, derbyniwyd llythyr gan un o'r trigolion yn gofyn i'r Cyngor weithredu ar fyrder i ddatrys y broblem. Cytunwyd i gysylltu unwaith yn rhagor gyda'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt ddelio â'r mater.

Derbyniwyd ymateb i lythyr yn gofyn am arwyddion 40 m.y.a. ar yr A487 i'r de o'r pentref. Eglurwyd fod y Cynulliad wedi comisiynu adolygiad terfynau cyflymder ledled Cymru, a byddant yn rhoi unrhyw newidiadau ar waith erbyn diwedd Rhagfyr 2014. Bydd cynnwys llythyr y Cyngor Cymuned yn cael ei ystyried pan wneir yr adolygiad yn yr ardal hon gan y Cyngor Sir.

Derbyniwyd copi o bapur ymgynghorol gan Tai Canolbarth Cymru ar y meini prawf i'w defnyddio wrth ddyrannu tai rhent cymdeithasol, ynghyd â chopi o ymateb Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig, i'r ddogfen. Cytunwyd i gynnal Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor nos Lun 14 Chwefror i drafod y mater hwn.

Daeth llythyr i law gan un o'r trigolion yn mynegi pryder am nifer uchel y tai yr awgrymir eu codi'n lleol, a hefyd y ganran isel (20%) o dai fforddiadwy y gelwir amdanynt. Cytunwyd i roi'r eitem hon ar agenda'r Cyfarfod Arbennig ar 14 Chwefror.

Wrth drafod cyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf, adroddodd y Clerc y rhagwelir y bydd costau'r Cyngor ychydig dros £16,000, ond na fyddai angen codi lefel yr archebiant gan fod disgwyl i'r derbyniadau am y flwyddyn fod oddeutu £3,500. Ar sail hyn cytunwyd i hawlio archebiant o £12,000 unwaith yn rhagor.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad o drafodaethau'r Is-bwyllgor Ariannol. Pwysleisiodd fod mwy o geisiadau lleol am gymhorthdal wedi'u derbyn nag erioed o'r blaen. Cadarnhawyd fod y sefyllfa ariannol yn galluogi'r Cyngor i ddosrannu ychydig yn fwy nag yn 2009/10. Y ffon fesur a ddefnyddiwyd drwy gydol y trafodaethau oedd maint y 'lles i'r gymuned leol'. Wedi pwyso a mesur y ceisiadau, argymhellwyd dosbarthu £3,960 gydag 80% ohono'n cael ei ddosbarthu o fewn y gymuned. Cadarnhawyd argymhellion yr Is-bwyllgor gan y Cyngor llawn.

O dan unrhyw fater arall, nodwyd fod cerbydau'n parcio'n aml iawn mewn man peryglus ar y tro i ffordd Bont-goch ger talcen y Llew Du. Hefyd nodwyd bod modurwyr yn anwybyddu llinellau melyn dwbl yng nghanol y pentref a thrwy hynny'n peryglu bywydau gyrrwyr eraill. Rhoddwyd sylw hefyd i gyflwr gwael wyneb ffyrdd gwledig y gymuned yn dilyn tywydd garw'r gaeaf. Cytunwyd i dynnu sylw'r awdurdodau priodol at y materion hyn.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batri's a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Gala Nofio

Mae'r ysgol wedi bod yn brysyr yn paratoi ar gyfer 2 gala nofio cylch Aberystwyth dros yr wythnosau diwethaf. Cafwyd llwyddiant mawr yn y gala nofio i ysgolion lleiaf y cylch ac mae'n braf dweud fod plant yr ysgol wedi cystadlu'n frwd yn erbyn plant o'r ysgolion mwyaf hefyd. Llongyfarchiadau arbennig i Tomos Jenkins am ennill y ras broga ac i Dylan, Gwydion, Penri a Tomos am ennill y ras gyfnewid rhydd.

Ysgol Eco

Diolch hefyd i'r rhai hynny sydd wedi dod â photeli plastig 2litr i'r ysgol dros yr wythnosau diwethaf. Mae'r nifer yn cynyddu'n ddyddiol, ond rydym ymhell o gyrraedd ein nod o hyd i gael digon i godi tŷ gwydr eco cyfeillgar. Felly, croeso i chi ddod â'ch poteli draw eto.

Disgo Sant Ffolant

Cynhelir Disgo Sant Ffolant ar Nos Wener Chwefror 11 o 6pm tan 8pm yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Cost - £2.00 yr un. Dewch draw am hwyl a sbri a digon o ddawnsio. Croeso i bawb

Llyfrgell Genedlaethol

Ar ddiwedd mis Ionawr aeth plant Cyfnod Allweddol 2 i'r Llyfrgell Genedlaethol i weld Arddangosfa Byd Bach. Dyma arddangosfa sy'n olrhain hanes teithio yng Nghymru. Roedd y bore yn gyfle gwych i edrych ar fapiau hynafol, dyddiaduron, posteri a llythrau yn gysylltiedig â'r thema. Roedd yr adran am Batagonia o ddiddordeb arbennig gan fod y plant yn astudio hanes y Cymry yn ymfudo yno ar hyn o bryd. Diolch yn fawr iawn i Rhodri am baratoi mor drylwyr ar ein cyfer.

Recordio gyda'r Lolfa

Yn ystod y mis cafodd nifer o blant blwyddyn 5 a 6 y cyfle o recordio caneuon ar gyfer CD newydd yn seiliedig ar straeon Rala Rwdins. Yn ôl Meinir, golygydd y gyfres, roedd y canu'n swynol ac yn siŵr o blesio'r plant fydd yn gwrando ar y caneuon.

Gala Nofio Cenedlaethol yr Urdd – Caerdydd

Aeth Nansi Dingle, ei mam Jenny a Mrs Rhian Nelmes i Bwll Nofio Rhyngwladol Caerdydd ar Ddydd Sadwrn Ionawr 29ain. Roedd Nansi'n cynrychioli Ceredigion yn y ras broga i ferched Blynyddoedd 5 a 6. Roedd ugain o ferched yn cystadlu yn y ras. Llwyddodd Nansi i fynd trwyddo i'r ras derfynol a daeth yn 7fed yn y diwedd. Roedd hi'n gyffrous iawn gweld Nansi'n cael y cyfle i nofio mewn awyrgylch mor broffesiynol. Llongyfarchiadau Nansi a tybed a fyddwn yn dy weld di yn cystadlu yn y Gemau Olympaidd rhyw ddiwrnod.

Sialens y Goedwig Felyn/Yellow Woods Challenge

Mae'r ysgol yn cymeryd rhan yn sialens ail-gylchu gyda'r 'Yellow Pages'. Rydym yn casglu cloriau blaen eich hen 'Yellow Pages'. Mae pob tŷ yn yr ardal wedi derbyn copi newydd o'r 'Yellow Pages' erbyn hyn. Os nad ydych wedi ail-gylchu'r hen 'Yellow Pages' yn barod – a fydddech mor garedig a rhwygo'r dudalen flaen i ffwrdd a'i roi i Mr Hefin Jones yn Ysgol Talybont neu i Mrs Rhian Nelmes yn Ysgol Llangynfelyn. Nid ydym angen yr hen 'Yellow Pages' i gyd – dim ond y clawr blaen. Bydd tudalen flaen unrhyw hen 'Yellow Pages' yn cyfrif hyd yn oed hen rai sy'n cuddio yng ngwaelodion eich silffoedd gartref! Byddwn yn cyfrif yr holl gloriau a danfon y ffigwr i'r 'Yellow Pages'. Bydd gwobr i'r ysgol sy'n llwyddo i gasglu'r mwyaf o hen gloriau. Y dyddiad cau yw Dydd Gwener Chwefror 18fed.

Bardd Plant Cymru



Hybu darllen



Roedd hi'n hyfryd i groesawu cyn aelod o'r staff dysgu yn ôl i'r ysgol yr wythnos hon i gynnal gweithdy ar ddarllen gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Mae

Delyth Huws erbyn hyn yn Llyfrgellydd Plant gyda Cheredigion ac roedd hi'n awyddus i ganfod barn y plant am y ddarpariaeth lyfrau sydd ar gael iddynt gan gynnwys nodi eu hoff lyfrau a'u hoff awduron. Cafwyd sesiwn fywiog gyda'r plant yn cyfrannu'n adeiladol ac yn onest i'r hyn sydd yn yr ysgol a'r hyn y byddent yn hoffi eu darllen. Diolch yn fawr i Delyth am y gweithgaredd buddiol.

Bags 2 school

Diolch yn fawr i bawb a fu'n casglu dillad dros yr wythnosau diwethaf. Cariwyd dros 100 o fagiau i fan y cwmni, ac mae pob kilogram yn dod ag arian gwerthfawr i goffrau'r ysgol.

Roedd hi'n hyfryd cael croesawu Dewi Pws, Bardd Plant Cymru i'r ysgol i gynnal gweithdy ar ddarllen gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Roedd hyn yn rhan o gynllun y Llywodraeth i'n cael ni i gyd i "Ddarllen Miliwn o Eiriau". Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd darllen ond yn fwy na dim cafwyd cryn dipyn o hwyl yn casglu ffeithiau drwy ddarllen deunydd amrywiol a hynny mewn ffordd ddiddorol.

Ysgol Tal-y-bont

Eisteddfod yr ysgol

Cofiwch ymuno gyda ni ar gyfer eisteddfod blyneddol yr ysgol yn y Neuadd Goffa ar Ddydd Gwener, Mawrth 4 i ddechrau am 9.15. Croeso i bawb.

Newydd ddyfodiaid



Yn ystod mis Ionawr croesawyd sawl newydd ddyfodiad i Ysgol Tal-y-bont. Yn y llun mae Callum a symudodd i'r pentref dros yr haf ac Alex a Sean sydd wedi ymgartrefu yn Nhal-y-bont ar ôl symud yma o Ddilyn.



Rydym hefyd wedi croesawu aelod newydd o staff ers dechrau'r flwyddyn. Croeso cynnes i Natalie Evans sydd yn gweithio gyda Mrs Jones yn y gegin.



Enillydd Cystadleuaeth y Cambrian News

Bu Ffion Hicks, Blwyddyn 4, yn llwyddiannus yn ennill cystadleuaeth gyda'r Cambrian News a Rachel's Dairy. Roedd yn rhaid i Ffion ysgrifennu darn yn dweud beth roedd yr ysgol yn gwneud i helpu'r amgylchedd. Ysgrifennodd am yr ardd, bwydo'r adar, gwneud gwrtaith a defnyddio bareli dŵr i gasglu glaw. Ei gwobr oedd £100 o offer garddio i'r ysgol. Llongyfarchiadau mawr iawn i ti Ffion!

Ysgol Llangynfelyn

Swydd Lanhau

Mae'r ysgol yn chwilio am rywun i lanhau'r ysgol am 10 awr yr wythnos. Os ydych yn gwybod am rywun fyddai â diddordeb yn y swydd neu hoffech chi fwy o wybodaeth – cysylltwch â Mr Hefin Jones neu Mrs Rhian Nelves os gwelwch yn dda ar (01970) 832458 neu prif@llangynfelyn.ceredigion.sch.uk

Enillydd Cystadleuaeth y Ford Gron



Ymweliad Dewi Pws



Croesawodd Dosbarth Miss Davies Dewi Pws, Bardd Plant Cymru i'r ysgol i gynnal gweithdy ar ddarllen fel rhan o'r strategaeth Darllen Miliwn o Eiriau. Siaradodd Dewi gyda'r plant am lyfrau, y llyfrgell a phwysigrwydd llyfrau a darllen i blant. Bu'r plant yn gweithio gyda Dewi mewn grwpiau a chafwyd sesiwn hwyliog iawn yn ei gwmni.

Estynnwn longyfarchiadau mawr hefyd i Mairéad Jones, Blwyddyn 6 am ennill cystadleuaeth Celf flynyddol y Ford Gron. Creodd Mairéad boster lliwgar dros ben ar y thema diogelwch tân gwyllt. Ei gwobr oedd cerdyn £10 i wario yn y siop *Waterstones*. Mae Mairéad eisoes wedi gwario'i gwobr ar lyfrau newydd.

KATIE JAMES

Bedwar mis ar ôl colli'i gŵr, Evan R James (lanto Pantglas), bu farw fy modryb hoff ar fore'r Calan yn Ysbyty Basingstoke, a hithau o fewn wythnos i fod yn 89 oed. Roedd wedi mynd yno at ei mab hynaf, Meirion, Diane a Philip, yn yr Hydref gan fwrriadu dychwelyd ar ôl dathlu'i phen-blwydd i'w chartref yn 1 Heol y Gogledd Tre'r-ddôl. Yno y cartrefodd ar ôl i'r Parchg. Brifardd Dafydd Jones ei phriodi gydag Evan yng nghapel Blaen-plwyf, 27 Tachwedd 1954. Roedd y capel y bu'i hen dad-cu William Morgan, Penrallt fel pen blaenor yn gyfrifol am ei godi yn 1876, yn bwysig iddi fel i'w theulu. Hi oedd yr ieuengaf a'r olaf o chwe phlentyn John Rhys a Catherine Ann Edwards, Tancwael Fach, Blaen-plwyf, ac fe soniai'n aml am ei brodyr William Richard, David John, Thomas James ('nhad), a'i chwiorydd Margaret Jane ac Annie Mary.

Yn ddiweddar bu'n sôn wrthyf am fod yng nghwmni Jane, mam ei mam, a merch Penrallt, a drigai yn Nhanbanc ger ei chartref. Soniai hefyd am ei ffrindiau yn Ysgol Chancery lle'r oedd J D Lewis yn brifathro ardderchog. Wedi gadael ysgol bu'n gofalu am ei mam cyn mynd i weithio i'r Hostel (Afallen Deg) yn Bow Street, canolfan Merched y Tir. Cerdded i'r Garn ar y Sul a gwneud ffrindiau newydd, a'r un modd pan fu'n forwyn yn Jasper House (Abbeyfield) yn Aberystwyth i'r Parchg. Athro D. Morris Jones a'i ferch. Cyfarfu â ffrindiau newydd wrth fynd i'r oedfaon yn Seilo at y Parchg. Dan Evans a Charles Clements wrth yr organ. Roedd wrth ei bodd yn nosbarth Ysgol Sul Charles Abel Jones, Gwalia Garage. Daliodd i fynd yno ar ôl symud at y Jonesiaid yn Gossipore, Ffordd Llanbadarn.

Yng Ngorffennaf 1946 roedd Anti Katie ymhlith y 210 a ddioddefodd o'r Typhoid a bu raid ymneilltuo gydag eraill i Blas Tanybwllch am ddeufis heb i neb gael ymweld â'r cleifion. Dal i weithio ar ôl gwella ac ar ôl priodi newidiodd ardal ac enwad wrth sefydlu cartref yn Nhre'r-ddôl gyda'i phriod. Yno magwyd Meirion, Menna ac Alwyn, a maes o law croesawyd Diane, y diweddar Gary, a Donna i'r teulu. Yn ddiweddarach cafodd fod yn fam-gu gariadus i Emma, Michelle, Paul, Philip, Alan a Dawn.

Daeth Anti Katie a ffydd ei hynafiaid gyda hi i'w hardal newydd a bu yr un mor ffyddlon yn Eglwys Llangynfelyn ag y bu yng Nghapel Blaen-plwyf. Am fwy nag ugain mlynedd cerddodd o'i chartref i lanhau'r Eglwys yn wythnosol ac yr oedd graen ar ei gwaith. Addolai'n ddiweddar yn y Llan Fach ac yr oedd wrth ei bodd hefyd yn mynd i gyfarfodydd Cymdeithas y Chwiorydd yn Rehoboth. Ar sawl tro fe ddywedodd wrthyf yn annwyl ei bod yn falch fy mod yn weinidog. Ffydd dawel ond cadarn oedd ganddi a chredaf fod geiriau Mary Robeling yn addas wrth i ni ddiolch am ei bywyd a'i llafur: *"To serve God and my Church, and to love all human beings is my creed"*. Byddwn yn debyg iddi.

W J Edwards

Y Fari Lwyd yn Nhal-y-bont



Ymwelodd Y Fari Lwyd a Thal-y-Bont eleni eto. Cychwynnodd y noson gyda Jeremy Turner yn adrodd stori i'r plant yng ngwaelod y Neuad. Roedd blas y stori'n ardderchog a blas y cyflaith a wnaed gan Mihangel Morgan yn felysach fyth. Rysâit deuluol yn ôl Mihangel – a'r gyfrinach i aros yn y teulu! Wedyn fe ddechreuwyd ar daith y Fari o gwmpas y pentre' gan alw yn nifer o dai ar yr hewl gefn cyn cloi'r noson yn y Llew Gwyn le cafodd y cantorion (a phawb arall!) ei disychedu. Noson wych ac o leiaf saith deg yn ymuno yn yr hwyl. Mae fideo o'r noson ar safwe Papur Pawb.

MENTER GYDENWADOL EGLWYSI GOGLEDD CEREDIGION



Daeth cynulleidfa niferus i wasanaeth hynod fendithiol yng Nghapel Rhydlwyd Lledrod ddydd Sul Tachwedd 14^{eg} 2010 pryd y comisiynwyd Efan Miles Williams yn Swyddog Gwaith Plant ac Ieuencid Gogledd Ceredigion. Priodol iawn oedd cynnal gwasanaeth yn Rhydlwyd gan mai yno y bu meithrinfa a magwraeth Efan a chan mai yno hefyd mae Efan yn aelod gweithgar o'r eglwys.

Llywyddwyd y gwasanaeth a chomisiynwyd Efan i'r gwaith gan y Parch Wyn Morris, Cadeirydd Bwrdd Rheoli Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion. Sefydliad newydd yw Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion gyda'r diben o gyflwyno neges Efengyl lesu Grist i blant ac ieuencid yr ardal.

Traddodwyd anerchiad amserol gan Y Parch Andrew Lenny a chafwyd cyfraniadau ar lafar ac ar gân hefyd gan y Parch Nicholas Bee, gweinidog Efan, Y Fns Joyce Howells ac ieuencid nifer o eglwysi Gogledd Ceredigion. Cyfeiliwyd gan offerynwyr pres dan arweiniad Y Fns Llio James.

Yn ystod y gwasanaeth cyflwynodd y Fns Beti Griffiths, ar ran aelodau Rhydlwyd, Feibl i Efan fel arwydd o'u dymuniadau da a thystiolaeth o'u gwerthfawrogiad iddo am ei gyfraniad i'r eglwys

Dechreuodd Efan ar ei swydd 3 mlynedd ar Fedi 1^{af} 2010 a lleolir ei swyddfa yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth.

MORGAN YN MYND NÔL I'R YSGOL

Mae'r awdur Morgan Tomos o Bentrebach wedi dychwelyd i'w hen ysgol, Ysgol y Gelli Caernarfon. am ysbrydoliaeth am y diweddaraf yn y gyfres Alun yr Arth.

"I Ysgol y Gelli es i pan oeddwn i'n blentyn ac felly pan ddaeth gwahoddiad i fynd yno i gynnal sesiwn stori, allwn ni ddim gwrthod. Mae cael bod yng nghwmni dosbarth o blant yn wych. Mae ei brwdfrydedd bob tro yn fy ysgogi i sgwennu a'r ffrwyth yw Alun yr Arth yn y Gofod – y 13eg yn y gyfres."

Yn y stori mae Alun yn mynd am dro yn roced gyntaf Cymru - y *Ddraig Goch* - ond dyw'r daith ddim yn un hwylus. Mae'r roced yn taro yn erbyn comed ac yn cael ei thrwsio gan dri o bobol bach gwyrdd, rhyfedd iawn yr olwg. Dyw Alun ddim siŵr sut i ymateb iddyn nhw ac felly mae'n dechrau siarad Saesneg. Mae'r bobol bach gwyrdd yn esbonio mai Cymraeg yw iaith y gofod!

Mae Morgan yn edrych am ffyrdd newydd o ddatblygu'r gyfres ac fe fydd hyn yn dod i'r amlwg yn Alun yr Arth a Jac Drws Nesa' a gyhoeddir yn y Gwanwyn. Mae cynlluniau ar y gweill i ehangu ystod oed darllenwyr Alun yr Arth a chyhoeddi llyfrau mwy syml i blant sy'n ymwneud a sgiliau cyfiri a llythrennedd.

Dim ond un cwestiwn sy ar ôl. Pwy ddysgodd fwyaf yn ystod yr ymweliad - disgyblion Ysgol y Gelli neu Morgan ei hun?

Cyfarchion o Wlad Groeg

Mae *Papur Pawb* wedi derbyn pwt o lythyr oddi wrth 'Glyn Harbour' a fagwyd yn Dwylan, Tal-y-bont, ond sydd erbyn hyn wedi ymgartrefu yng Ngwlad Groeg. Mae Glyn yn nai i Mrs Elsie Thomas, Bryngolau, Y Stryd Fawr, ac roedd am adrodd ychydig o'i hanes ers iddo adael Cymru.

Fe brynom ni'r tŷ yn Koroni ger Kalamata yn 1991. Ni oedd yr unig Brydeinwyr yn ein hardal ar y pryd – ond mae'n stori wahanol iawn heddiw, yn rhannol diolch i raglenni fel *'Place in the sun'*.

Yn 1991 fe benderfynom symud yma'n barhaol, ac rydym yn llenwi'n dyddiau gyda garddio, cerdded, mynd i'r traeth a gweithgareddau dyddiol ayyb. Nid ydym yn hollol hunangynhaliol, ond rydym yn plannu tatws ddwywaith y flwyddyn. Mae tomatos yn ffynnu yma, ac mae corbwmpenni, wylisiau, llysiau'r bara, pupur a ffa hefyd yn gwneud yn dda. O ran ffrwythau, mae gennym ein orennau a mandarinau ein hunain o fis Rhagfyr i Fawrth a lemwn trwy gydol y flwyddyn. Mae dyfrhau yn waith pwysig trwy gydol yr haf – dyma'r tro cyntaf erioed bron i ni orfod dyfrhau tatws!

Dyw'r iaith Roeg ddim yn hawdd, ac er fod Saesneg 'ar gael' yn y mwyafrif o sefyllfaoedd, nid fel hynny roedd hi yn y dyddiau cynnar yma, ac felly roedd rhaid i ni ddysgu, ac rydym yn hynod o falch ein bod wedi gwneud. Mae'n cynnig mynediad i rannau o fywyd y byddem wedi colli allan arnynt yn llwyr fel arall – gwneud synnwyr o raglenni newyddion lleol ar y teledu a chael sgwrs gyda'n cymdogion arbennig sydd ddim yn siarad Saesneg. Nid oeddwn wedi gwerthfawrogi yn fy ieuenctid cymaint o fantais yw cael 2 iaith. Un cyd-ddigwyddiad, wrth gerdded y ci y diwrnod o'r blaen gyda'm ffon, fe ddarganfyddais mai '*pastwni*' yw'r gair Groegaidd am '*staff*' (agos iawn i'r gair Cymraeg '*pastwrn*'). 'Rwyf hefyd bellach yn gweld pam fod fy athrawon yn dweud ei bod hi'n iawn i ieithoedd fenthyl geiriau o rai eraill. Wedi dysgu Groeg, rwy'n sylweddoli cymaint o eiriau Groegaidd

sydd mewn defnydd beunyddiol mewn ieithoedd eraill, yn arbennig geiriau meddygol (diolch i Hippocrates) a '*phobias*' (yn golygu ofnau).

Mae'r ardal hon yn wledig yn bennaf, poblogaeth Koroni yw tua 1,500. Y prif ddiwydiant yw ffermio, yn bennaf raisins ac olewydd. *Kalamata* yw cartref rhai o'r Olewydd gorau i'w bwyta, ac mae'r olew o'r safon uchaf. Mae'r ffermydd yn tueddu bod yn eithaf bach, tua 10 acer, ond mae gan y mwyafrif o ffermwyr ail incwm, ychydig o waith adeiladu, tŷ i'w rentu i dwristiaid dros yr haf. Mae asynnod yn mynd yn fwy prin, ac yn fuan fe fyddan nhw wedi diflannu fel anifeiliaid gwaith. Gofynnir i mi'n aml am sefyllfa ffermio yng Nghymru, a gallaf ddweud fod llawer o debygrwydd, materion cymorthdaliadau Ewropeaidd, y ffaith ei bod hi'n mynd yn anoddach i ffermydd bach i oroesi, prisiau'n cael eu gorchymyn gan gwmnïau mawr – ac wrth gwrs y tebygrwydd mawr – tywydd – mae bob amser yn rhy sych, rhy wlyb neu'n rhy rhywbeth!! Mae rhai pethau yr 'un peth dros y byd.

Fel mwyafrif y Groegiaid, ein crefydd yw Cristnogaeth Uniongred. Nid yw'r gwasanaethau'n 'cynnwys' y gynulleidfa, dim canu emynau ayyb. Maent yn hir a 'dyw hi ddim yn anghyffredin i fynd yn gynnar a gadael hanner ffordd trwy'r gwasanaeth neu '*vice versa*'. Dyw toriad am sigarét y tu allan tra bod y gwasanaeth yn parhau ddim yn anghyffredin.

Mae tebygrwydd rhwng ein cymuned a'r pentref lle'm magwyd, ac eto llawer o wahaniaethau (y tywydd yn un). Mae'r sialensiau maent yn eu gwynebu mi dybiwn, yn debyg i Dalybont. Gallwch chi ddim gadael eich drws heb ei gloi mwyach, mae'r ifanc yn mudo i'r ddinas ac mae'r diwylliant a'r iaith dan bwysau o ganlyniad i fywyd modern a symudiad y bobl. Mae bobl wedi gofyn i ni lawer gwaith ai Saeson ydym ni (gan mai dyna'r iaith rydym yn ei defnyddio) ond mae'r ffaith mai Cymry 'ydym ni yn aml yn cael ei gamddeall fel Ffrancwyr, (mae'r geiriau Groegaidd yn debyg).

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com



ylolfa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch
ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 111982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.



We do right by you

Chwaraeon

CAE'R ODYN GALCH


Mae pwyllgor Cymdeithas Cae'r Odyn Galch wedi bod wrthi'n paratoi cynlluniau ar gyfer eleni. Cynigiwyd am grantiau a threfnir noson codi arian cyn bo hir (gwylwch am yr hysbyseb yn rhifyn nesaf Papur Pawb).

Mae'r gymdeithas yn ddiolchgar am gefnogaeth hael Cyngor Bro Ceulanamaesmawr. Llwyddwyd i werthu holl docynnau'r Clwb 200 a thynnwyd yr enwau o'r het ar gyfer y gwobrwyon cyntaf. Y buddugwyr oedd:
£100: Ron Roberts; £50: Anthony Southgate; £30: Geraint Evans; £10 yr un: Carolyn Wachter, Eluned Evans, Alun Davies, Mike Karas, Gwyn Jenkins, teulu Tanllan, Elaine Rowlands.

AR DY FEIC



Mae Robin Fuller mab Chris a Wendy, Pandi, Ffwrnais wedi ennill gwobr o wythnos o wyliau yng nghystadlweddau Prydeinig a drefnwyd gan fudiad *Sustrans*. Nod *Sustrans* yw rhoi mwy o ddweisiadau i unigolion wrth deithio gyda phwyslais ar drafnidiaeth cyhoeddus, cerdded a seiclo. Fe waeth Robin (sy'n seiclwr brwdfrydig) fideo i hybu seiclo. Llongyfarchiadau mawr.



Rowland Davies Dolclettwr Hall Taliesin gyda'r plac a gyflwynwyd iddo gan Glwb Defaid Dorset Gogledd Iwerddon ar derfyn pedair mlynedd cadeiryddiaeth Cymdeithas Bridio Defaid Corniog Dorset.

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy e-bost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

DATHLU HWYL DDEWI
gyda
'BOIS Y FRO'
7o'r gloch, Nos Sadwrn 26^{en} Chwefron
Neuadd Goffa Talybont
'dewch yn brydlon i gael cawl blasus,
cyn cychwyn dr yr adloniant...
mynediad: £5 i oedolion / £1 i blant
Celebrate 'Gŵyl Ddewi'
Cawl + family entertainment!
GROESO I BAWB

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT	TEIARS HUW LEWIS TYRES
Glanyrafon		Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.		
HUWLEWISTYRES.COM		
BF Goodrich	KUMHO TYRES	
Ffôn 01970 636774		